

Y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)

Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 2

Chwefror 2016

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi rhai o'r prif newidiadau a wnaed i'r Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) ("y Bil") yn ystod trafodion Cyfnod 2

Cefndir

Cyflwynwyd y Bil ar 13 Gorffennaf 2015 gan Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ("y Gweinidog").

Dyma oedd y cyntaf o dri bil arfaethedig i sefydlu trefniadau ar gyfer trethi datganoledig yng Nghymru. Cyflwynir deddfwriaeth treth benodol yn dilyn y Bil er mwyn sefydlu dwy dreth Gymreig newydd - Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi.

Diben y Bil yw cyflwyno'r fframwaith cyfreithiol angenrheidiol ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru yn y dyfodol.

Yn benodol, mae'r Bil yn darparu ar gyfer sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC), a'i brif waith fydd casglu a rheoli trethi datganoledig.

Craffu

- Penderfynodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Cyllid ("y Pwyllgor") graffu ar y Bil.
- Ar 23 Mehefin 2015, cytunodd y Pwyllgor Busnes mai 27 Tachwedd 2015 fyddai'r terfyn amser ar gyfer adroddiad y Pwyllgor ar Gyfnod 1.

– Cynhaliodd y Pwyllgor **ymgyngoriad ar egwyddorion cyffredinol y Bil**, a ddaeth i ben ar 8 Medi 2015 a digwyddiad i randdeiliaid ar 23 Medi 2015. Dechreuodd y Pwyllgor glywed tystiolaeth lafar ar 1 Hydref 2015.

– Cyhoeddodd y Pwyllgor ei **adroddiad Cyfnod 1** ym mis Tachwedd 2015. Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei **adroddiad ar y Bil** yn yr un mis hefyd.

– Gwnaeth y Pwyllgor 29 o argymhellion yn ei adroddiad.

– Ar 8 Rhagfyr 2015, yn dilyn dadl yn y Cyfarfod Llawn, cytunodd y Cynulliad y **dylai'r Bil symud ymlaen i Gyfnod 2**.

– Dechreuodd Cyfnod 2 ar 9 Rhagfyr 2015, a chyfarfu'r Pwyllgor i **ystyried a gwaredu gwelliannau** ar 28 Ionawr 2016.

Mae rhagor o wybodaeth am y Bil (fel y'i cyflwynwyd) ar gael yn y ddogfen Crynodeb o Fil a baratowyd gan y Gwasanaeth Ymchwil.

Gwelliannau a dderbyniwyd yng Nghyfnod 2

Cyflwynwyd 96 o welliannau; tynnwyd dau o'r rheini yn ôl. Derbyniwyd pob un o'r 36 o welliannau a gyflwynwyd gan y Gweinidog.

Nodwch fod y rhifau isod yn cyfeirio at adrannau'r Bil fel y'i cyflwynwyd. Mae pob gwellant gan Lywodraeth Cymru oni nodir yn wahanol.

Isod, nodir rhai o'r prif newidiadau a wnaed yn ystod trafodion Cyfnod 2 (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr).

Aelodaeth

- Mae **gwelliant 75** yn darparu ar **gyfer cynyddu isafswm yr 'aelodau anweithredol'** o ACC a benodir gan Weinidogion Cymru o dri i bedwar; mae hynny'n sicrhau bod mwyafrif o aelodau



anweithredol yn parhau ar fwrdd ACC gan ystyried y rôl newydd ar gyfer aelod gweithredol etholedig (gweler gwelliant 83).

- Mae **gwelliant 76** yn ymateb uniongyrchol i argymhelliad 4 a wnaed yn Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor. Mae'r gwelliant yn caniatáu i'r **prif weithredwr benodi un neu ddau aelod o staff ychwanegol** i ACC yn 'aelodau gweithredol', gyda'r aelodau anweithredol naill ai'n cymeradwyo'r enwebiad neu'n gofyn i'r prif weithredwr wneud argymhelliad amgen.
- Mae **gwelliannau 79, 83, 84, 89 a 90** hefyd yn mynd i'r afael ag argymhelliad 4 y Pwyllgor drwy ddarparu ar gyfer aelod gweithredol ychwanegol o ACC a gaiff ei benodi yn **aelod gweithredol etholedig**.
- Roedd **gwelliant 83**, a gyflwynwyd gan y Gweinidog ac a dderbyniwyd gan y Pwyllgor, yn welliant o sylwedd. Yr effaith oedd cynnwys adran yn y Bil yn ymwneud â **phenodi aelod gweithredol etholedig** drwy gynnal pleidlais gudd ymhlith staff ACC.
- Mae **gwelliant 84** yn caniatáu i aelodau anweithredol **ddiswyddo aelod gweithredol etholedig** os nad yw'n bodloni'r meini prawf a amlinellir yn adran 7 o'r Bil.
- Mae **gwelliannau 80 ac 81** yn ymateb i argymhelliad 5 y Pwyllgor. Mae **gwelliant 80** yn pennu na chaiff cyfnod gwasanaeth aelod anweithredol **fod yn hwy na 5 mlynedd**. Mae **gwelliant 81** yn sicrhau na chaiff aelod anweithredol o ACC **ei benodi fwy na dwywaith**.
- Mae **gwelliant 82** yn rhoi'r awdurdod i Weinidogion Cymru **ailbenodi dirprwy gadeirydd**.
- Roedd y Gweinidog yn llawn gefnogi argymhelliad 7 y Pwyllgor, sy'n cynnig mai **aelodau anweithredol** sy'n gwneud y penderfyniad yn achos penodi ail brif weithredwr ACC neu brif weithredwr dilynol, ac yn achos penodiadau dilynol. Fodd bynnag, cafodd gwelliant 73 (Peter Black AC), a oedd yn ymdrin â hyn, ei dynnu'n ôl.

Dywedodd y Gweinidog y byddai'n cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 3 i wneud y newid hwn.

Gweithdrefn

- Mae **gwelliannau 85 ac 86** yn ymdrin ag argymhelliad 8 yn adroddiad y Pwyllgor. Mae'r gwelliannau'n pennu rheolau sy'n darparu nad oes cworwm mewn cyfarfod oni bai fod **mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol yn rhai anweithredol**.

Awdurdodiad mewnol i gyflawni swyddogaethau

- Mae **gwelliant 87** yn ymateb i argymhelliad 9 y Pwyllgor, sy'n sicrhau na fydd pwyllgor neu is-bwyllgor wedi'u hawdurdodi i gyflawni unrhyw rai o swyddogaethau ACC oni fydd **o leiaf un o'r aelodau yn aelod anweithredol o ACC**.

Cyfarwyddiadau cyffredinol

- Mae **gwelliant 2** yn dileu'r capasiti i Weinidogion Cymru benderfynu pryd y byddant yn cyhoeddi'r cyfarwyddiadau a roddir i ACC. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi **pob cyfarwyddyd a roddir i ACC**, gan sicrhau bod ACC yn fwy tryloyw ac atebol.

Siarter safonau a gwerthoedd

- Mae **gwelliant 6** yn nodi bod yn rhaid i ACC adolygu ei Siarter **o leiaf unwaith o fewn 5 mlynedd** i ddyddiad ei gyhoeddi neu ddyddiad ei adolygu.
- Mae **gwelliant 61A** (Peter Black AC) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Siarter gael ei chyhoeddi **o fewn 3 mis** i adran 26 ddod i rym.

Swyddog Cyfrifo

- Symudwyd **gwelliant 11** o ganlyniad i argymhelliad 23 yn adroddiad y Pwyllgor. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r gwaith o lofnodi cyfrifon gyfeirio'n benodol at y cyfrifon blynyddol a'r Datganiad Treth blynyddol. Mae'r gwelliant yn sicrhau bod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r prif weithredwr fel swyddog cyfrifo ACC gymryd cyfrifoldeb am y **Datganiad Treth a chyfrifon ACC**.



Archwilydd Cyffredinol Cymru

- Mae **gwelliant 12** yn gwneud darpariaeth i **Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi am archwilio datganiad treth ACC** drwy newidiadau i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Y camau nesaf

Dechreuodd Cyfnod 3 ar 29 Ionawr 2016. Cynhelir trafodion Cyfnod 3 yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Mawrth 2016 i ystyried gwelliannau i'r Bil (fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2). Y terfyn amser ar gyfer gosod gwelliannau oedd 23 Chwefror 2016.

Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am y Bil, cysylltwch â'r prif glerc cyfrifol, **Leanne Hatcher**